

Ysgoloriaeth Goffa Louise Owen

Dyfernir i'r cneifiwr iau mwyaf addawol yng Nghymru

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn falch o gefnogi ysgoloriaeth o £1,000 er cof am Sarah Louise Owen.

Cafodd yr ysgoloriaeth hon ei chyflwyno gyntaf yn 2014 er cof am Louise Owen, a oedd yn drinwraig gwlan fedrus ac a fu'n teithio'n helaeth ar draws y byd. I warchod ei choffadwriaeth, mae'r teulu'n garedig iawn wedi sefydlu'r ysgoloriaeth hon i roi'r cyfle i gneifiwr iau ddatblygu a hybu ei sgiliau mewn cneifio.

Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu i'r cneifiwr iau sy'n dangos fwyaf o addewid a bydd yn cael ei defnyddio i helpu i ariannu taith i Seland Newydd yn **hydref 2024**. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn hyfforddiant uwch a bydd yn gweithio gyda chontractwr cneifio a drefnir ymlaen llaw.

Meini Prawf Cymhwysedd

Rhaid i bob ymgeisydd:-

- fod yn gneifiwr iau,
- bod yn barod i dreulio o leiaf 3 mis yn gweithio yn Seland Newydd i un contractwr y bydd ei enw ar y fisa gwaith,**
- fod yn 26 mlwydd oed neu iau ar ddiwrnod cyntaf Sioe Frenhinol Cymru 2023
- fod yn byw yng Nghymru, a
- heb fod wedi ennill yr ysgoloriaeth yn y gorffennol.

Meini Prawf Dyfarnu

Bydd yn ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu i'r cneifiwr iau sydd:-

- wedi dangos gallu cyson trwy gydol tymor sioeau cneifio Cymru,
- yn gallu dangos ymroddiad a dyhead i wella'u gallu cneifio, ac
- sydd wedi'i glustnodi fel un o'r cneifwyr mwyaf addawol yng Nghymru.

Gofynnir i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais amgaeedig a byddant yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu a amlinellwyd uchod. Mae'r ysgoloriaeth hon yn agored i bob cneifiwr iau yng Nghymru.

Byddir yn cyflwyno tystysgrif i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru 2024 a bydd disgwyl iddynt ysgrifennu erthygl ar gyfer blwyddlyfr y Gymdeithas ar ôl iddynt ddychwelyd o'u taith.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r **4 Hydref 2023** a byddir yn gofyn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ddod am gyfweiliad anffurfiol o flaen y panel dewis.



**Ysgoloriaeth Goffa Louise Owen
Ffurflen Gais**

Enw:

Cyfeiriad:

Ffôn:

Symudol:

E-bost:

Dyddiad geni:

1) Amlinellwch eich:-

(a) profiad ymarferol o ran cneifio

.....
.....
.....

(b) cyfranogiad mewn cystadlaethau cneifio

.....
.....
.....

(c) cysylltiad arall â'r diwydiant defaid

.....
.....
.....

2) Amlinellwch paham yr hoffech deithio i Seland Newydd

.....
.....
.....
.....

Ar ôl ei llenwi dychwelwch eich ffurflen gais at Tracy Powell, CAFC, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY (tracy@rwas.co.uk). Y dyddiad cau yw **4 Hydref 2023**.

